Innovate Trust

Hawdd ei Ddeall

# Ffyrdd o bleidleisio




Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



Mae angen i'n lleisiau ni oll gael eu clywed.

Mae hynny'n dda i'n lles ni.



Mae cael ein lleisiau wedi'u clywed hefyd yn helpu ein cymunedau.

Mae syniadau gwahanol yn helpu i wneud pethau'n well i bawb.


Fe wnaethoch chi ofyn i Your Vote Matters am fwy o wybodaeth am bleidleisio a democratiaeth.





Dyma fwy o wybodaeth am bleidleisio a chymryd rhan yn y ffordd mae ein cymunedau'n gweithio.

Mae yna ddolenni i fideos a mwy o dudalennau Hawdd ei Deall.

## Mae yna dair ffordd y gallwch bleidleisio mewn etholiadau.




1. Pleidleisio drwy'r post cyn diwrnod etholiad.



2. Pleidleisio'n bersonol ar ddiwrnod etholiad.




3. Pleidleisio drwy ddirprwy ar ddiwrnod etholiad.





**Cofiwch:**
**Mae'n rhaid i chi fod ar y gofrestr etholiadol os ydych chi am bleidleisio!**

Cliciwch yma i gofrestru i bleidleisio.




# Pleidleisio drwy'r post.




Mae'n well gan lawer o bobl bleidleisio drwy'r post.

Mae'n golygu y gallwch chi ymlacio ychydig mwy a gwneud pethau yn y ffordd eich siwtio chi orau.



Mae'n golygu y gallwch ofyn am yr help sydd ei angen arnoch i lenwi'r papur pleidleisio gartref.





Cysylltwch â'ch cyngor ychydig wythnosau cyn yr etholiad i ofyn am bleidlais bost.

Fe wnân nhw anfon ffurflen i chi ei llofnodi a'i hanfon yn ôl iddyn nhw.





Pan fydd diwrnod etholiad yn nesáu, fe fyddan nhw'n anfon pecyn pleidleisio ichi.

Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am beth mae'n rhaid ichi ei wneud nesaf.




Unwaith byddwch wedi llenwi'r papur pleidleisio a'r ffurflenni eraill, rhaid ichi ei anfon yn ôl i'r cyngor.





**Cofiwch ei anfon yn ôl mewn da bryd cyn diwrnod yr etholiad.**

Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

**Fideo am bleidleisio drwy'r post gan y Comisiwn Etholiadol:**


**Gwyliwch y fideo am bleidleisio drwy'r post**



# Pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio




Mae llawer o bobl yn hoffi pleidleisio yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.



**Poll card / Cerdyn pleidleisio**

**Election of the Police and Crime Commissioner for *[insert name of police area]* police area**
**Etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal heddlu *[nodwch enw ardal yr heddlu]***

Date of election *[day] [date] [month] [year]*
Dyddiad yr etholiad *[diwrnod] [dyddiad] [mis] [blwyddyn]*

| Voting information / Gwybodaeth am bleidleisio | |
|---|---|
| Polling day<br>Diwrnod pleidleisio | |
| Voting hours<br>Oriau pleidleisio | |
| Your polling station will be<br>Eich gorsaf bleidleisio fydd | |

**Please turn over / Trowch drosodd**

**Your details / Eich manylion:**

* *[Elector's name and qualifying address details here]*
* *[Enw'r etholwr a manylion y cyfeiriad cymhwyso yma]*
* *Local Returning Officer to omit where poll card sent to an anonymous elector. Poll card to an anonymous elector must be delivered in a sealed envelope*
* *Y Swyddog Canlyniadau Lleol i'w hepgor os anfonwyd cerdyn pleidleisio at etholwr dienw. Mae'n rhaid i gerdyn pleidleisio ar gyfer etholwr dienw gael ei ddosbarthu mewn amlen wedi'i selio*


**Number on register:**
**Rhif ar y gofrestr:**

** [You do not need to take this card with you in order to vote.]
** [Nid oes angen i chi fynd â'ch cerdyn hwn gyda chi er mwyn pleidleisio.]
** [You must have this card with you. You cannot vote without it.]
** [Mae'n rhaid i chi fynd â'r cerdyn hwn gyda chi. Ni allwch bleidleisio hebddo.]
** *If anonymous elector omit the words in the first set of brackets, if not omit the words in the second set of brackets.*
** *Os yw'n etholwr dienw, dylid hepgor y geiriau yn y set gyntaf o gromfachau. Fel arall, dylid hepgor y geiriau yn yr ail set o gromfachau.*


*[Insert helpline and other details including website].*
*[Nodwch fanylion y llinell gymorth a manylion eraill gan gynnwys gwefan].*

Ychydig ddyddiau cyn yr etholiad, fe gewch chi gerdyn pleidleisio.

Mae hwn yn cynnwys cyfeiriad ac oriau agor eich gorsaf bleidleisio.





Mae'r cerdyn hefyd yn eich atgoffa o ddiwrnod yr etholiad a pha fath o etholiad yw ef.




Ar ddiwrnod yr etholiad, ewch i'r orsaf bleidleisio. Gallwch ddangos eich cerdyn pleidleisio neu ddweud eich enw a chyfeiriad wrth staff yr orsaf bleidleisio.

Fe wnân nhw wirio eich prawf adnabod ffotograffig.




Byddan nhw'n rhoi'r papur pleidleisio ichi ac yn egluro sut i'w lenwi.



Bydd angen ichi fynd i fwth pleidleisio i'w gwblhau gan fod hwn yn fater preifat.

Cofiwch, does gan neb arall hawl gwybod dros bwy rydych chi'n pleidleisio.




Ar ôl ichi ei lenwi, plygwch y papur a'i roi yn y blwch pleidleisio wrth ymyl y staff pleidleisio.

# Pleidlais drwy ddirprwy



**Pleidlais drwy ddirprwy yw pan fyddwch yn gofyn i rywun rydych chi'n eu trystio'n arw i fynd i'r orsaf bleidleisio ar eich rhan ar ddiwrnod etholiad.**




**Mae'n rhaid ichi gysylltu â'ch cyngor i gael ffurflen arbennig ychydig wythnosau cyn y diwrnod etholiad.**

**Fe fyddan nhw'n anfon mwy o wybodaeth i chi a'ch dirprwy ar beth i'w wneud nesaf.**




My Vote My Voice

Cliciwch yma am wybodaeth am ffyrdd gwahanol o bleidleisio.





## Print bras

**Gadewch i ni wybod os oes angen gwybodaeth mewn print bras arnoch chi.**

**Ebost:**

**comms@innovate-trust.org.uk**



## Braille

**Gadewch i ni wybod os oes angen gwybodaeth mewn Braille arnoch chi.**

**Ebost:**


**comms@innovate-trust.org.uk**

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llyfryn hwn neu os hoffech siarad gyda ni am gynnwys y llyfryn hwn:**



**Ffoniwch ni ar:**

**02920 382 151**




**Neu ewch i'n gwefan:**

**innovate-trust.org.uk**

Innovate Trust

Hawdd ei Ddeall

Mae Innovate Trust Limited wedi'i gofrestru yng Nghymru. Rhif cofrestru'r cwmni 02493904
Mae Innovate Trust Limited yn elusen gofrestredig. Rhif y Comisiwn Elusennau 1010541
Darparwr Cymorth Achrededig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nifer ASP03-054